YSGOL CASMAEL

Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence



21.5.20

Annwyl Rieni,

Os yr ydych yn ystyried nad oes un ohonom erioed wedi dilyn cwrs o'r enw "Goresgyn Pandemig a Dysgu yn eich Cartre' ", rwy'n credu ein bod wedi llwyddo'n rhyfeddol o dda hyd yn hyn! Diolch eto am eich cefnogaeth i ni fel ysgol. Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r staff am y gwaith tîm, ac am fynd yr ail filltir i sicrhau bod gwaith wedi'i gynllunio'n ofalus, ei wahaniaethu, ei bostio a'i farcio. Mae nifer ohonynt wedi cael yr her ychwanegol o ddysgu eu plant eu hunain, ac yn gwmws fel ni gyd, paratoi prydau o fwyd diddiwedd!

Er ein bod wedi bod yn y sefyllfa yma am 9 wythnos bellach, rydym yn dal i fyw gyda'r un rhestr o bryderon, ein sefyllfa gwaith, gofal ein plant, pryderon ariannol, pryderon iechyd, perthnasau oedrannus, plant bach, pobl ifanc yn eu harddegau… Yna, rydym yn ychwanegu at y gymysgedd yna hysbysiadau di-stop ar y newyddion a'r nonsens sydd yn aml ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn gofyn pam yr ydym yn methu cysgu!?

Fodd bynnag, wrth i Lywodraeth Cymru ddechrau llunio cynllun i symud ymlaen trwy ddefnyddio system goleuadau traffig, mae gobaith y bydd ein byd, yn raddol iawn, dros yr wythnosau nesaf, yn dechrau dychwelyd i normal, ond normal newydd. Hyd yn hyn nid ydym yn gwybod sut olwg fydd ar y "normal" yma, ond cyn gynted ag y bydd gennym amserlen a chanllawiau i ddilyn, fe fyddwn yn gallu rhoi gwybod i chi beth fydd hyn yn ei olygu i chi fel teulu.

Mae wythnos nesaf yn hanner tymor. Mae angen y toriad yma ar ein staff a'n disgyblion, yn ogystal â chi fel rhieni! Gwnewch yn siŵr bod y plant yn cael rhywfaint o amser rhydd fel bod yr wythnos yn teimlo fel hanner tymor. Mae hyn yn bwysig iawn, oherwydd yn dilyn wythnos nesaf, bydd set newydd o dasgau yn barod i'r disgyblion.

Mae gosod y swm cywir o waith i bawb yn ystod yr amser yma wedi bod yn amhosibl, mae'r ymateb wedi amrywio'n fawr. Mae rhai rhieni eisiau mwy o waith, oherwydd bod eu plentyn yn gorffen popeth rhwng 8 ac 8:30 am. Mae rhai rhieni eisiau llai, oherwydd bod eu plant eisiau gorwedd i mewn ac eisiau gwneud y lleiafswm. Mae rhai rhieni yn gweithio oriau hir ac yn teimlo'r her o ddysgu o adref yn fwy. Rwy'n gobeithio bod wythnos yma ac hanner tymor wedi rhoi seibiant haeddiannol i bawb er mwyn i chi gyd cael eich sbarduno i ail-gymryd yn y tasgau unwaith eto at y cyntaf o Fehefin. Rydyn ni wir eisiau estyn allan at bob un o'n disgyblion.

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

YSGOL CASMAEL

Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence



Os oes gennych unrhyw adborth ynglŷn â'r gwaith, yna rhowch wybod i ni, rydym wedi gwrando'n ofalus ar unrhyw sylwadau sydd wedi dod i mewn hyd yn hyn.

Os oes gennych unrhyw waith sydd wedi'i gwblhau gartref, os gallwch ei e-bostio neu ei bostio atom gan ddefnyddio'ch camera ar eich ffôn, mae hyn i gyd yn ddefnyddiol, gan ein bod wedyn yn gwybod pa blant sydd wedi llwyddo i gyflawni pa dasgau.

Os ydych chi am gadw'ch plentyn yn brysur dros hanner tymor, yna peidiwch ag anghofio'r rhestr o weithgareddau a rannwyd gyda chi dros wyliau'r Pasg, mae rhai o'r dolenni yma yn ddefnyddiol iawn a byddant yn helpu'ch plentyn i gadw mewn cysylltiad â'r Gymraeg . Rwyf hefyd wedi atodi llyfryn sydd wedi'i ddosbarthu gan ein swyddogion heddlu cymunedol lleol.

Hoffwn ddymuno hanner tymor iach a diogel i chi i gyd. Rwy'n siŵr, fel fi, eich bod yn fwy diolchgar nag erioed ein bod ni'n byw lle'r ydym yn byw yn ystod yr amser hwn. Rwy'n siŵr y bydd y cyfnod yma yn cael effaith hirdymor ar ein gwerthfawrogiad o'r pethau bach mewn bywyd am flynyddoedd lawer i ddod.

Cadwch yn ddiogel a gofalwch am eich teuluoedd,

Cofion gorau,

Amanda Lawrence,

Pennaeth.

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

YSGOL CASMAEL

Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence



21.5.20

Dear Parents,

Considering none of us have ever taken a course entitled "Surviving Lockdown and Home schooling", I think we have managed remarkably well so far! Thank you again for your support to us as a school. I would also like to take this opportunity to thank the staff for their team work, and for going the extra mile to make sure that our pupils' work has been planned carefully, differentiated, posted on line and marked whilst they have also had the additional challenge of teaching their own children, and like us all, providing a seemingly endless stream of meals!

Even though we have survived like this for 9 weeks now, we still seem to be living with the same list of worries, our logistics regarding work, childcare, financial worries, health worries, elderly relatives, small children, teenagers… Then we add to this mix the news updates and the non-stop notifications and often nonsense on social media and wonder why we are unable to sleep! However, as the Welsh government start to formulate a traffic lighted recovery plan, there is hope that very gradually, over the coming weeks, our world will begin to return to a new normal. As I have said before, as yet we don't know what this normal will look like, but as soon as we have a timescale and guidelines to work to, we will be able to inform you of what this will mean to you as a family.

Next week is half term. This break is much needed by staff and pupils alike, but also for you as parents. Please make sure that the children have some free time so that it feels like half term. This is really important, as following next week there will be a whole new set of tasks waiting. Setting the correct amount of work for everyone during this time has been impossible, engagement has varied hugely. Some parents want more work, because their child finishes everything between 8 and 8:30am. Some parents want less, because their children want a lie in and want to do the minimum. Some parents are working long hours themselves and are finding supporting the home learning a real challenge. I do hope that this "catch-up" week and the break over half term will provide you with a timely rest so that following the half term break everyone will be inspired to re-engage with all of the tasks set. We really do want to be able to reach out to all of our pupils.

If you have any feedback, then please let us know, we have carefully listened to any comments that have come in so far. If you have any work that has been completed at home that you can email or post to us using your phone camera,

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

YSGOL CASMAEL

Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence



this is all helpful, as we then know which children have managed to complete which tasks.

If you want to keep your child busy over half term, then don't forget the list of activities which was shared with you over the Easter holidays, some of these links are really useful and will help your child stay in touch with the Welsh language. I have also attached a booklet which has been distributed by our local community police officers.

I would like to wish you all a healthy and safe half term. I'm sure, like me, you are more grateful than ever to be living where we live during this time. I'm sure that the effects of this unusual period in history will have a long lasting impact on our appreciation of the simple things in life for many years to come.

Stay safe and look after your families,

Best wishes,

A.Lawrence,
Head teacher.

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

YSGOL CASMAEL

Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence



This is a list of open-ended tasks for your children that are useful at any time:

- Darllen llyfr – Read a book – the best thing ever for passing the time and developing your child's literacy skills, however old they are!

Please make use of the Tric a Chlic resources which were shared previously. https://tricachlic.cymru/en

- Ysgrifennu am lyfr (neu ysgrifennu llyfr!) – Write about a book (or write a book!)
- Tynnu llun – Draw a picture (or several!)
- Gwylio S4C – Watch S4C: https://www.s4c.cymru/clic/ (on S4C Clic you need to set up an account the first time you use it, just like iPlayer)
- Cadw'n heini – Keep fit, follow Joe Wicks if you like, but there are plenty of other options!
- Ysgrifennu stori, sgript neu ddarn o farddoniaeth – Write a story, script or poem.
- Gwneud gwaith creadigol o ryw fath – Do some sort of creative work (no mess!)
- Ymarfer offeryn – Practise an instrument
- Lliwio – Colouring: https://emilyellenjames.myportfolio.com (free, but you need a printer)
- Gwersi arlunio ar-lein gyda Huw Aaron – Online animation lessons in Welsh with Huw Aaron: https://www.youtube.com/watch?v=jYGXCbvLu_o (he is posting one lesson per day at 3pm)
- Gwrando ar stori – Listen to an audiobook: https://stories.audible.com/start-listen (free) *** Audible have released all their audiobooks free of charge – they have a HUGE catalogue – now is the time to listen! ***
- Llyfrau David Walliams – David Walliams is releasing a free audiobook per day. Listen and enjoy: https://www.worldofdavidwalliams.com/elevenses/
- Darllen llyfr ar-lein – Read an online book: https://worldbook.kitaboo.com/ (plenty of ideas for free books)
- Gwylio fideos tablau – Watch times tables videos in Welsh: https://www.youtube.com/playlist?list=PLm3-WYdWIH3AkblyKK9UbS-1xuLLYFnFM
- Gwylio arbrawf ar-lein – Watch a daily online experiment at Techniquest: https://www.techniquest.org/daily-demos/
- Gwersi ukulele gyda Mei Gwynedd – Online ukulele lessons with Mei Gwynedd: https://www.youtube.com/watch?v=iVT-ULFoCqw
- Helpu gyda'r gwaith ty – Help with the housework
- Tacluso'ch ystafell wely – Tidy your bedroom
- Helpu i baratoi bwyd – Help to prepare food
- e-bostio aelod o'r teulu neu un o'ch athrawon – e-mail a family member or one of your teachers
- Ffonio aelod o'r teulu i weld sut maen nhw – Phone a family member to check how they are

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

YSGOL CASMAEL

Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence



Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk